# Y System Rheoli Amgylcheddol
# 8.1.22 Gweithdrefn Rheoli Cynnyrch Diogelu Planhigion

## Cyhoeddwyd: Medi 2021

| | |
|---|---|
| **Awdur:** | Hayley Beharrell, Benjamin Sampson, Paul Edwards, John Courtney, Fiona Wheatley, Andrew Hillier, Katie Horsburgh |
| **Cymeradwywyd gan:** | Heidi Smith |
| **Dyddiad Adolygu** | 31 Awst 2021 |
| Cyfeirnod Cymal: | EcoCampus ac ISO 14001:2015 |
| **PEIDIWCH AG ARGRAFFU'R DDOGFEN HON ONI BAI FOD HYN Y ANGENRHEIDIOL** | |



# Gweithdrefn Rheoli Cynnyrch Diogelu Planhigion

## 1 Diben

Fel Prifysgol, mae dyletswydd gyfreithiol arnom i reoli, defnyddio a gwaredu cynhyrchion diogelu planhigion mewn ffordd sy'n lleihau effeithiau negyddol ar iechyd pobl a'r amgylchedd ehangach. Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i unrhyw grŵp sy'n defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion, boed hynny mewn Cyfadran, Uned Gwasanaeth Proffesiynol neu fel Contractiwr.

Mae'r weithdrefn hon yn canolbwyntio ar gynhyrchion diogelu planhigion ac yn cynnwys y gofynion deddfwriaethol canlynol:

- Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Defnydd Cynaliadwy) 2012 (OS 2012/1657) fel y'u diwygiwyd
- Rheoliadau Rheoli Plaleiddiaid 1986 (OS 1986/1510) fel y'u diwygiwyd
- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (1981, pennod 69) fel y'i diwygiwyd
- Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (2006, pennod 16), fel y'i diwygiwyd
- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Cynhyrchion Diogelu Planhigion) 2020 (OS 2020/552)

Mae'n unol â'r *Côd ymarfer ar gyfer defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion* (DEFRA et al, 2012).

## 2 Diffiniadau

**Plaleiddiaid:** Mae'r weithdrefn hon yn diffinio plaleiddiaid fel rhywbeth "sy'n atal, yn difa neu'n rheoli organeb niweidiol ('pla') neu glefyd, neu'n diogelu planhigion neu gynhyrchion planhigion wrth iddynt gael eu cynhyrchu, eu storio a'u cludo. Mae'r term yn cynnwys, ymysg eraill: chwynladdwyr, ffwngleiddiad, pryfleiddiaid a chynhyrchion ymlid pryfed"[1].

**Cynhyrchion Diogelu Planhigion:** Dyma 'blaleiddiaid sy'n diogelu cnydau neu blanhigion dymunol neu ddefnyddiol. Fe'u defnyddir yn bennaf yn y sector amaethyddol, yn ogystal ag ym meysydd coedwigaeth a garddwriaeth, ardaloedd amwynder a gerddi cartrefi. Maent yn cynnwys o leiaf un sylwedd gweithredol ac mae ganddynt un o'r swyddogaethau canlynol:

- diogelu planhigion neu gynhyrchion planhigion rhag plâu/clefydau, cyn neu ar ôl cynhaeaf
- dylanwadu ar brosesau bywyd planhigion (megis sylweddau sy'n dylanwadu ar eu twf, ac eithrio maethynnau)

---

[1] Yn seiliedig ar ddiffiniad yr Undeb Ewropeaidd (UE) – ffynhonnell: https://ec.europa.eu/food/plant/pesticides_en

- cadw cynhyrchion planhigion
- difa neu atal twf planhigion annymunol neu rannau annymunol o blanhigion

Gallant hefyd gynnwys cydrannau eraill megis sylweddau diogelu planhigion (*safeners*) a synergyddion[1].

# 3 Cyfrifoldebau

| | |
|---|---|
| **Y Tîm Cynaliadwyedd** | • Rhoi cymorth i grwpiau sy'n defnyddio cynnyrch diogelu planhigion<br>• Helpu i gasglu gwybodaeth i'w chyflwyno'n flynyddol (o 2022)<br>• Ymgymryd â gwaith monitro achlysurol |
| **Y Tîm Iechyd a Diogelwch** | • Helpu i ddatblygu ac adolygu asesiadau risg<br>• Ymgymryd â gwaith monitro achlysurol |
| **Grwpiau sy'n defnyddio plaleiddiaid** | • Dilyn gofynion y weithdrefn hon<br>• Cyflwyno gwybodaeth yn flynyddol i'r Tîm Cynaliadwyedd, o 2022<br>• Adrodd am unrhyw ddigwyddiadau niweidiol sy'n deillio o ddefnyddio plaleiddiaid |

# 4 Dogfennau cysylltiedig

- **Asesiad risg:** Templed asesu risg ac arweiniad ar iechyd a diogelwch, sydd ar gael ar y wefan.
- **WMGN 20: Arweiniad ar Ddosbarthu a Storio Gwastraff Cemegol** Arweiniad ar storio a dosbarthu eich gwastraff sydd ar gael ar y wefan.
- **Gweithdrefn Defnyddio'r Storfa Gwastraff Cemegol:** Gweithdrefn sy'n nodi sut i gael mynediad i fannau gwaredu cemegion, a'u defnyddio, ar Gampws Singleton a Champws y Bae sydd ar gael ar y wefan.
- **Ffurflen Gwaredu Gwastraff Cemegol:** Ffurflen i'w llenwi fel rhan o'r broses waredu, sydd ar gael ar y wefan.
- **Label Gwastraff Cemegol:** Label i'w gosod ar bob potel cyn ei gwaredu i'r storfa, sydd ar gael ar y wefan.

# 5 Rheoli cynhyrchion diogelu planhigion

Asesir risg pob agwedd ar reoli cynhyrchion diogelu planhigion a nodir isod gan y grwpiau sy'n eu defnyddio. Mae'r asesiadau risg ar gael gan y grŵp cysylltiedig ar gais.

## 5.1 Dulliau rheoli amgen

Cyn defnyddio unrhyw ddulliau diogelu planhigion, ystyriwch a oes angen unrhyw driniaeth, gan gofio'r ddyletswydd mewn perthynas â bioamrywiaeth sydd ar y Brifysgol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Os oes angen camau rheoli, dylid blaenoriaethu ymagweddau amgen heb gemegau. Gall hyn gynnwys

gorchuddio, tynnu â llaw, strimio neu drin â gwres. Os nad oes modd osgoi defnyddio cemegau, dylid defnyddio'r rhai lleiaf niweidiol (i bobl a’r amgylchedd), a'r dos effeithiol lleiaf.

## 5.2 Caffael

Rhaid i gynhyrchion diogelu planhigion a ddefnyddir ar eiddo Prifysgol Abertawe gael eu prynu gan werthwr dibynadwy a rhaid iddynt beidio â chynnwys sylweddau sydd wedi'u gwahardd neu sydd dan gyfyngiadau. Cyn prynu, siaradwch â'ch cyflenwr er mwyn deall a oes dewis amgen ar gael sy'n llai niweidiol.

Os bydd angen cynnyrch diogelu planhigion sy'n cynnwys deunyddiau dan gyfyngiadau ar y grŵp, rhaid i'w haelodau roi gwybod i'r Tîm Cynaliadwyedd, a all eu helpu yn ystod y broses drwyddedu. Fodd bynnag, bydd angen cael cyfiawnhad clir dros y canlynol:

- Pam mae angen sylwedd sydd wedi'i wahardd neu sydd dan gyfyngiadau
- Pam na ellir defnyddio dewisiadau amgen sy'n llai niweidiol yn y gweithgareddau

Darperir manylion cyswllt y Tîm Cynaliadwyedd yn Adran 6.

## 5.3 Storio

Dylid storio pob cynnyrch diogelu planhigion yn unol â'r Daflen Data Diogelwch (SDS) ar gyfer y deunydd cysylltiedig. Fodd bynnag, fel gofyniad lleiaf, rhaid i ardaloedd storio gael eu dylunio i atal y deunydd rhag cael ei ryddhau i'r amgylchedd, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Y tu mewn i leoliad diogel dan glo y rheolir mynediad iddo
- Bwnd a all ddal 110% o'r cynhwysydd mwyaf
- Rhestr yn nodi'r hyn sy'n cael ei storio
- Deunyddiau/offer i lanhau unrhyw arllwysiadau neu ollyngiadau

Os yw'r ardal storio rydych yn ei defnyddio'n annigonol, dylech adrodd am ‘Ddigwyddiad Niweidiol’ (gweler Adran 5.7.2). Gall y Tîm Cynaliadwyedd a'r Tîm Iechyd a Diogelwch eich helpu i nodi lleoliad addas.

## 5.4 Defnydd

Wrth ddefnyddio cynhyrchion diogelu planhigion, rhaid i'r defnyddwyr wneud y canlynol:

- Diogelu iechyd pobl a'r amgylchedd
- Cyfyngu'r defnydd i'r ardaloedd y bwriedir eu trin
- Sicrhau bod y swm a ddefnyddir a mynychder y defnydd mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol

Rhaid i wybodaeth am bob un o'r eitemau uchod gael ei chynnwys yn yr asesiadau risg, y gweithdrefnau gweithredu diogel a'r Cyflwyniadau Diogelwch cysylltiedig. Darperir rhagor o fanylion yn Adrannau 5.4.1 i 5.4.8.

### 5.4.1 Lleoliadau lle mae defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion yn dderbyniol

Dim ond ar yr ardaloedd canlynol y gellir defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion:

- Rhywogaethau estron goresgynnol sy'n bresennol ar Gampws Parc Singleton, Cyfleusterau Chwaraeon Lôn Sgeti, Campws y Bae a Thwyni Crymlyn (Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig)
- Ardaloedd palmantog er mwyn gwaredu rhywogaethau o chwyn am resymau esthetig ac oherwydd y potensial sydd ganddynt i ddifrodi neu beryglu cyfanrwydd yr arwynebau
- Meysydd chwaraeon er mwyn gwella ansawdd yr arwyneb chwarae

Dim ond lle nodwyd problem benodol a lle diystyrwyd pob dull rheoli arall y gellir defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion eraill.

Os oes angen i chi ddefnyddio cynhyrchion diogelu planhigion yn rhywle arall, rhowch wybod i'r Swyddog Bioamrywiaeth[2].

### 5.4.2 Hyfforddiant

Mae'n ofynnol bod unrhyw un sy'n defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion proffesiynol yn 'meddu ar dystysgrif sy'n dangos bod ganddynt wybodaeth ddigonol am y pynciau a restrir yn Atodiad I y Gyfarwyddeb'[3], gan gynnwys:

- Cyfreithiau perthnasol
- Risgiau cysylltiedig
- Risgiau sy'n deillio o ddefnyddio cynhyrchion diogelu planhigion
- Arferion gwaith diogel
- Camau gweithredu brys
- Monitro iechyd
- Cadw cofnodion
- Defnyddio cyfarpar i ddodi cynnyrch

Mae Adran 2 y Côd Ymarfer ar gyfer defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion[4] yn darparu rhagor o fanylion ynghylch y rhai y mae angen hyffordiant arnynt a'r rhai a all gynnal yr hyfforddiant. Rhaid i'r holl gofnodion hyfforddiant gael eu cynnal yn gyfredol gan Reolwr Llinell y grŵp hwnnw. Gellir gofyn am gofnodion hyfforddiant yn ystod arolygiadau neu archwiliadau, heb rybudd.

[2] wildlife@abertawe.ac.uk
[3] Ffynhonnell: https://www.hse.gov.uk/pesticides/using-pesticides/codes-of-practice/guidance-sustainable-use-ppp-regs-2012.htm#section1
[4] Ffynhonnell: https://www.hse.gov.uk/pesticides/resources/C/Code_of_Practice_for_using_Plant_Protection_Products_-_Section_2.pdf

### 5.4.3 Gwanedu neu gymysgu cynhyrchion diogelu planhigion cyn eu defnyddio

Lle y mae angen gwanedu cynnyrch, rhaid gwneud hynny mewn lleoliad sy'n:

- Defnyddio hambwrdd diferion/camau cyfyngu eraill er mwyn dal deunyddiau sy'n cael eu gollwng
- Cynnwys arwyneb anathraidd er mwyn atal y ddaear dan draed rhag cael ei halogi

Dylid ystyried y gweithgarwch hwn ar eich asesiad risg, gan gynnwys rheolaethau addas, yn seiliedig ar y cynnyrch diogelu planhigion sy'n cael ei drafod. Bydd hyn yn cynnwys rheolaethau amgylcheddol a rheolaethau iechyd a diogelwch.

### 5.4.4 Dull defnyddio

Pa bynnag ddull rydych yn ei ddefnyddio, bydd angen i chi ystyried:

- Arweiniad y gwneuthurwr ynghylch sut i'w ddefnyddio
- A yw'r dull yn gydnaws â'r cynnyrch diogelu planhigion rydych am ei ddefnyddio
- Y lleoliadau lle byddwch yn ei ddefnyddio
- Hyfforddiant ar gyfer y staff a fydd yn ei ddefnyddio

Gall y dulliau gynnwys:

- Cyfarpar llaw
- Chwistrellydd ar beiriant
- Llwch, gronynnau, pelenni ac abwydau

Dylid ystyried hyn yn eich asesiad risg ac unrhyw Weithdrefnau Gweithredu Diogel canlyniadol.

Yn ogystal, os ydych yn defnyddio cyfarpar wedi'i osod ar beiriant, rhaid eich bod chi'n:

- meddu ar dystysgrif sy'n dangos ei fod wedi pasio prawf a gydnabyddir yn swyddogol a gynhelir gan y Cynllun Cenedlaethol Profi Chwistrellwyr

Rhaid i'r cyfarpar gael ei brofi bob tair, pum neu chwe blynedd wedyn, gan ddibynnu ar bryd cynhaliwyd y prawf diweddaraf a'r math o gyfarpar (mae manylion ar gael yn y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol). Rhaid i'r holl gyfarpar gael ei raddnodi'n rheolaidd.

### 5.4.5 Rinsio a golchi

Os yw unrhyw gyfarpar, cynwysyddion neu gerbydau wedi cyffwrdd â chynhyrchion diogelu planhigion os oes rhaid iddynt gael eu glanhau, rhaid i chi ystyried y canlynol:

- Darllen cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr er mwyn cael arweiniad penodol ar y dulliau gorau o lanhau'r cyfarpar
- Edrych ar label y cynnyrch diogelu planhigion i weld a oes cyfarwyddiadau glanhau arbennig
- Gwisgo’r dillad diogelwch a ddisgrifir ar label y cynnyrch diogelu planhigion

Mae agweddau eraill y dylid eu hystyried wrth olchi/rinsio yn cynnwys:

- Glanhau'r cyfarpar a ddefnyddiwyd gennych, y tu mewn a'r tu allan iddo, yn ddelfrydol cyn gadael yr ardal a gafodd ei thrin
- Glanhau'r dodwyr cyn newid i gynnyrch diogelu planhigion gwahanol.

### 5.4.6 Tywydd garw

Ni ddylai defnyddwyr cynhyrchion diogelu planhigion ddodi ‘plaleiddiaid mewn ffordd a all arwain at ddrifftio’. Felly, rhaid ystyried y tywydd cyn eu defnyddio, gan gynnwys:

- Cyfeiriad a chyflymder y gwynt. Os ydych yn debygol o fethu'r ardal a dargedir oherwydd y gwynt, **ni ddylid** ymgymryd â'r gwaith. Gweler ‘Atodiad 1 : Arweiniad ar gyflymder y gwynt’ i gael rhagor o arweiniad.
- Glaw: gallai cawod drom ar ôl dodi cynnyrch arwain at weddillion yn cyrraedd cyrsiau dŵr lleol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy'r rhwydwaith draenio dŵr wyneb

### 5.4.7 Cofnod o ddefnydd

Pryd bynnag y defnyddir cynhyrchion diogelu planhigion ar safle, rhaid i'r ffurflen ‘Atodiad 2: Ffurflen defnyddio cynnyrch diogelu planhigion’ gael ei llenwi, naill ai:

- Ar bapur gyda chofnodion yn cael eu cynnal a'u cadw gan y defnyddiwr a'u lanlwytho i Teams yn rheolaidd; Neu
- Drwy'r ffurflen Microsoft, gan lawrlwytho'r deunydd yn achlysurol i Teams

### 5.4.8 Gollwng ar ddamwain

Os caiff cynhyrchion diogelu planhigion eu gollwng ar ddamwain, rhaid i staff wneud y canlynol:

- Dilyn gweithdrefn ‘8.1.03 Ymateb i Ollyngiad Allanol’ y Brifysgol, gan roi gwybod i'r Tîm Cynaliadwyedd os bydd y deunydd sydd wedi cael ei ollwng yn cyrraedd cyrsiau dŵr neu ddraeniau (arwyneb neu frwnt)
- Adrodd amdano fel digwyddiad niweidiol drwy wefan y Brifysgol (gweler Adran 5.7.2)
- Cefnogi'r ymchwiliad i ddigwyddiad niweidiol, yn ôl y gofyn

## 5.5 Gwaredu

### 5.5.1 Deunydd pecynnu a gweddillion cynhyrchion diogelu planhigion

Gellir ailgylchu deunydd pacio gwag a glân heb unrhyw halogyddion cemegol yn weddill, os tynnir y labeli ac os yw'r plastig yn PET 1 neu'n HDPE 2. Yna gellir ei osod mewn bagiau clir a'i osod yn y biniau olwyn 1,100 litr allanol i ailgylchu pethau cymysg sych.

Rhaid gwaredu deunydd pecynnu llawn neu wag sy'n cynnwys halogyddion cemegol yn y Storfa Gwastraff Cemegol drwy ddilyn Gweithdrefn Defnyddio'r Storfa Gwastraff Cemegol (8.1.5).

### 5.5.2 Cyfarpar diogelu personol sy'n cael ei wisgo wrth ddefnyddio cynhyrchion diogelu planhigion

Dylid trin unrhyw gyfarpar diogelu personol untro sy'n cael ei wisgo wrth ddefnyddio cynhyrchion diogelu planhigion fel gwastraff peryglus, a'i storio mewn bag coch cyn ei waredu. Dylid gwaredu'r cyfarpar yn unol â Gweithdrefn Defnyddio'r Storfa Gwastraff Cemegol (8.1.5).

### 5.5.3 Cymysgeddau sy'n weddill yn y tanc ar ôl eu defnyddio

Os oes gennych ddeunydd yn weddill ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd angen i chi symud y deunydd er mwyn ei waredu mewn modd addas. Mae defnyddwyr yn gyfrifol am wybod am y cynhyrchion diogelu planhigion y maent yn eu defnyddio. Fel rheol, **ni ellir draenio'r** rhan fwyaf o gynhyrchion diogelu planhigion. Os oes swm sylweddol na fydd ei angen, dilynwch y broses a nodir yn Adran 5.5.1.

## 5.6 Monitro

Gall unrhyw grŵp sy'n defnyddio unrhyw fath o gynnyrch diogelu planhigion fod yn destun arolygiad neu archwiliad achlysurol gan y Tîm Iechyd a Diogelwch neu'r Tîm Cynaliadwyedd. Pan geir arolygiad neu archwiliad, bydd yn rhaid i'r grŵp sy'n defnyddio'r cynhyrchion diogelu planhigion gyflwyno'r cofnodion a nodir yn y ddogfen hon, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Asesiad(au) risg cysylltiedig
- Cofnodion hyfforddiant
- Cofnodion defnydd (Atodiad 2: Ffurflen defnyddio cynnyrch diogelu planhigion)
- Unrhyw gyfarpar chwistrellu wedi'i osod ar beiriant sydd wedi'u cofrestru

## 5.7 Adrodd

### 5.7.1 Blynyddol

Dan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Cynhyrchion Diogelu Planhigion) 2020 (OS 2020/552), bydd yn rhaid adrodd bob blwyddyn am gynhyrchion diogelu planhigion a ddefnyddir o fis Medi 2022. Caiff y weithdrefn hon ei diweddaru i gynnwys y gofynion hyn pan gytunir ar broses fewnol.

### 5.7.2 Digwyddiad niweidiol

Os caiff cynhyrchion diogelu planhigion eu gollwng yn ddamweiniol, rhaid i staff ddilyn gofynion Adran 5.4.8, gan sicrhau y caiff digwyddiad niweidiol ei gofrestru drwy wefan y Brifysgol. Bydd y Rheolwr Llinell yn ymchwilio i bob digwyddiad niweidiol risg isel, a bydd y tîm iechyd a diogelwch canolog a/ neu'r tîm cynaliadwyedd yn ymchwilio i ddigwyddiadau niweidiol risg ganolig neu uchel.

## 6 Cymorth ychwanegol

Gallwch gysylltu â'r canlynol i gael cymorth ychwanegol:

| Rôl | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|
| Swyddog Bioamrywiaeth | wildlife@abertawe.ac.uk |
| Swyddog Cynaliadwyedd | sustainability@abertawe.ac.uk |
| Cymorth iechyd a diogelwch | healthandsafety@abertawe.ac.uk |

## 7 Effeithiau a chamau gweithredu yn erbyn diffyg cydymffurfiaeth

Gallai methu cydymffurfio â'r weithdrefn hon arwain at:

- Fethu cydymffurfio â gofynion EcoCampus a safon ISO 14001:2015.

Mae peidio â dilyn y weithdrefn hon yn cael ei drafod yng ngweithdrefn **10.1 Diffyg Cydymffurfiaeth a Chamau Cywirol**

## 8 Rheoli dogfen

| Dyddiad | Fersiwn | Diweddaru |
|---|---|---|
| Awst-21 | 1 | Dogfen newydd |
| | | |

# Atodiad 1 : Arweiniad ar gyflymder y gwynt

| Graddfa Beaufort (a fesurir 10 metr uwchben y ddaear | Disgrifiad | Arwyddion gweladwy | Arweiniad ar ddefnyddio chwistrellydd safonol ar gnydau | Amcangyfrif o gyflymder y gwynt ar uchder ffroenell y chwistrellydd |
|---|---|---|---|---|
| Grym 0 | Tawel | Mwg yn dringo'n fertigol | Defnyddiwch ansawdd chwistrellu ‘canolig’ neu ‘fras’ yn unig | Llai na 2 gilomedr yr awr (sef llai na 1.2 filltir yr awr) |
| Grym 1 | Awel ysgafn | Mwg yn drifftio, gan ddangos cyfeiriad y gwynt | Amodau chwistrellu derbyniol | Rhwng 2 a 3.2 gilomedr yr awr (rhwng 1.2 a 2 filltir yr awr) |
| Grym 2 | Awel ysgafn | Dail yn siffrwd a gallwch deimlo'r gwynt ar eich wyneb | Amodau chwistrellu delfrydol | rhwng 3.2 a 6.5 cilomedr yr awr (rhwng 2 a 4 milltir yr awr) |
| Grym 3 | Awel fwyn | Dail a brigau'n symud yn barhaus | Risg gynyddol o sgeintiad sydd wedi drifftio Osgoi chwistrellu chwynladdwyr a bod yn arbennig o ofalus wrth ddefnyddio plaleiddiad eraill | rhwng 6.5 a 9.6 cilomedr yr awr (rhwng 4 a 6 milltir yr awr) |
| Grym 4 | Awel gymedrol | Symudir canghennau bach a chodir dail a llwch | Peidiwch â chwistrellu | rhwng 9.6 a 14.5 cilomedr yr awr (rhwng 6 a 9 milltir yr awr) |

Ffynhonnell: Côd ymarfer ar gyfer defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion (DEFRA, 2012)

# Atodiad 2: Ffurflen defnyddio cynnyrch diogelu planhigion

Ar gael drwy Microsoft Forms yma.

| **Dyddiad** | Cliciwch yma i nodi dyddiad. | Cliciwch yma i nodi dyddiad. | Cliciwch yma i nodi dyddiad. | Cliciwch yma i nodi dyddiad. |
|---|---|---|---|---|
| **Safle** | Dewiswch opsiwn. | Dewiswch opsiwn. | Dewiswch opsiwn. | Dewiswch opsiwn. |
| **Cynnyrch** | | | | |
| **Gweithredwr** | | | | |
| **Lleoliad(au)** | | | | |
| **Cyfradd defnyddio cemegyn** | | | | |
| **Cyfradd defnyddio dŵr** | | | | |
| **Math o ffroenell** | | | | |
| **Nodwedd y chwistrelliad** | | | | |
| **Dull cyflwyno** | | | | |
| **Cyfanswm y cemegyn a ddefnyddir** | | | | |
| **Cyfanswm y dŵr a ddefnyddir** | | | | |
| **Amser dechrau** | | | | |
| **Amser gorffen** | | | | |
| **Tywydd** | | | | |
| **Math o arwyneb** | | | | |
| **Cam tyfu** | | | | |